



Ein cyf/Our ref FM -/01367/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru

10 Awst 2020

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 16 Mehefin ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch y cyfyngiadau symud. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn ateb.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr amgylchiadau hynod anodd ac ansicr sy'n cael eu hwynebu ar hyn o bryd gan fusnesau ac unigolion yn ystod y cyfnod anodd hwn ac rydym yn gwbl ymrwymedig i ddarparu y cymorth a'r sicrwydd sydd eu hangen.

Mae ein pecyn cymorth gwerth £1.7 biliwn i fusnesau – sydd gyfwerth â 2.6% o'n GVA – yn ategu pecynnau cyllido eraill Llywodraeth Cymru yn ogystal â chynlluniau Llywodraeth y DU ac mae'n golygu bod cwmnïau yng Nghymru yn gallu elwa ar y pecyn mwyaf hael sy'n cael ei gynnig unrhyw le yn y DU.

Hyd yn hyn, mae ein Cronfa Cadernid Economaidd ar gyfer Cymru yn unig wedi dyfarnu 11,400 o grantiau i fusnesau sy'n gyfanswm o £186.6miliwn.

Lluniwyd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 i ddiogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau y DU (SAGE) a Chell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru wedi dweud bod pob newid a wneir i lacio mesurau'r cyfyngiadau – y rheoliadau coronafeirws – yn cael effaith gronol. Rydym felly yn mynd ati fesul cam i ddatgloi'r mesurau hyn, gan fonitro effaith pob newid, a dysgu o'r newidiadau a wnawn a pharhau yn ein blaenau mewn modd hynod ofalus.

Rydym yn symud tuag at gam gwyrdd ein system goleuadau traffig ac wrth inni wneud hynny, mae'n fwy a mwy pwysig bod canllawiau yn nodi'r mesurau a'r camau a gymerwn i'n diogelu rhag o coronafeirws.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n hollbwysig ein bod yn dilyn y ffyrdd newydd hyn o weithio ac ymddwyn a bod pobl a busnesau yn cydymffurfio â'r canllawiau i helpu i leihau lledaeniad y feirws ac i ddiogelu pobl, gan sicrhau ein bod yn parhau i lacio'r cyfyngiadau yn y dyfodol.

Mae cyngor gwyddonol a meddygol yn dangos, yn gyffredinol, fod lefelau trosglwyddiad y coronafeirws yng Nghymru bellach yn isel.

Yn ystod y cylch adolygu tair wythnos diwethaf, gwnaethom sawl newid i agor ein sectorau hamdden, manwerthu, twristiaeth a lletygarwch. Ar ôl monitro effaith y newidiadau hyn ac adolygu'r dystiolaeth ehangach a'r dangosyddion ynghylch trosglwyddiad y feirws yng Nghymru ac o amgylch y byd, rydym wedi dod i'r casgliad bod rhywfaint o le i wneud newidiadau pellach dros y cylch tair wythnos sydd i ddod. Fe'ch cyfeiriaf at fy Natganiad Ysgrifenedig ar 31 Gorffennaf:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-o-reoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-2-cymru>

Dymuniadau gorau

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**MARK DRAKEFORD**